**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 993

# Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003

## RHAN V

### YMCHWILIADAU

**Adroddiadau am ymchwiliadau**

**13.**—(1) Ar ôl i ymchwiliad a wnaed ar gais y Cynulliad Cenedlaethol ddod i ben, rhaid i'r Comisiwn roi adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ac anfon copi o'r adroddiad —

(a) at unrhyw berson neu i unrhyw gorff a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(b) yn achos ymchwiliad sy'n ymwneud â darparydd gwasanaeth, i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol.

(2) Ar ôl i ymchwiliad a wnaed ar gais unrhyw berson neu gorff arall ddod i ben, rhaid i'r Comisiwn roi adroddiad i'r person neu'r corff hwnnw ac anfon copi o'r adroddiad —

(a) at unrhyw berson neu i unrhyw gorff a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(b) i'r Cynulliad Cenedlaethol; ac

(c) yn achos ymchwiliad sy'n ymwneud â darparydd gwasanaeth, i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol.

(3) Ar ôl i ymchwiliad ym mhob achos arall ddod i ben, rhaid i'r Comisiwn roi adroddiad i'r person neu'r corff a oedd yn destun yr ymchwiliad ac anfon copi o'r adroddiad —

(a) i'r Cynulliad Cenedlaethol; a

(b) yn achos ymchwiliad sy'n ymwneud â darparydd gwasanaeth, i'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol.

(4) Rhaid i adroddiad a wneir o dan baragraffau (1) i (3) nodi —

(a) canfyddiadau a chasgliadau'r Comisiwn;

(b) unrhyw argymhellion a wneir gan y Comisiwn.